**Annex B**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **5 Hydref 2020** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddogion** | **Cynghorydd Julian Thompson-Hill/Mark Dixon, Rheolwr Datblygu Tai/Mair Jones, Syrfëwr Prisio ac Ystadau** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Rhian Evans, Cyd-lynydd Craffu** |
| **Teitl** | **Adolygu Penderfyniad y Cabinet yn ymwneud â Gwaredu Tir yn ymyl Ysgol Pendref, Dinbych** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn am adolygiad o dan weithdrefn 'galw i fewn' pwyllgorau Craffu y Cyngor o benderfyniad a gymerwyd gan y Cabinet ar 22ain Medi 2020 yn ymwneud â 'Gwaredu Tir yn ymyl Ysgol Pendref Dinbych'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor cyflwynwyd rhybudd o 'alw i mewn' gan 5 cynghorydd nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet. Galwodd yr hysbysiad am adolygiad gan un o bwyllgorau Craffu'r Cyngor o benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â gwaredu tir yn ymyl Ysgol Pendref Dinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'r atodiadau ynghyd â'r sylwadau a wnaed heddiw, yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r penderfyniad ar waredu tir yn ymyl Ysgol Pendref Dinbych, a gymerwyd ar 22 Medi 2020 yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach.

3.2 Os y penderfynnir gofyn i'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol, fod y Pwyllgor Craffu yn nodi'r rhesymau dros yr adolygiad ac unrhyw argymhellion yr hoffai i'r Cabinet eu hystyried.

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Ar yr 22 Medi 2020 bu i Gabinet ystyried adroddiad ‘Gwaredu tir yn ymyl Ysgol Pendref Dinbych’ (copi yn atodedig yn Annex A).

4.2 Ar derfyn y drafodaeth penderfynodd y Cabinet i:

*“a) [g]ymeradwyo gwaredu tir wrth ymyl Ysgol Pendref, Dinbych a amlinellir mewn coch ar y cynllun (Atodiad A yr adroddiad) nad oes ei angen ar y Cyngor, ar y farchnad agored ar gyfer datblygiad preswyl, a dirprwyo awdurdod i'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol i gymeradwyo’r gwerthiant terfynol, a*

*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd yr Asesiad o’r Effaith ar Les i ystyriaeth (Atodiad B o’r adroddiad) fel rhan o'i benderfyniad.”*

4.3 Mae gweithdrefn ‘galw i mewn’ y Cyngor yn diffinio proses i Graffu arfer ei phwerau statudol i adolygu neu graffu ar benderfyniadau gweithredol, a gofyn i’r sawl sy’n gwneud penderfyniadau ailystyried penderfyniad a wnaed, cyn iddo gael ei weithredu.

4.4 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar 24 Medi. Mae’r weithdrefn ‘galw i mewn’ yn caniatáu 5 diwrnod gwaith i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o’r Cabinet i gyflwyno cais i ‘alw i mewn’ penderfyniad a wnaed. Cyflwynodd y Cynghorydd Glenn Swingler hysbysiad o ‘alw i mewn’ yn electronig ar 30 Medi. Cefnogwyd y cais hwn (trwy e-byst unigol) gan bedwar cynghorydd arall nad ydynt yn aelodau o’r Cabinet, sef y Cynghorwyr Gwyneth Kensler, Paul Penlington, Arwel Roberts a Rhys Thomas.

4.5 Y rheswm a nodwyd ar y cais i alw’r penderfyniad ‘i fewn’ oedd (yn yr iaith y cyflwynwyd ef):

"*1: This is more land owned by Council being sold for a quick fix to fill budget holes.*

*2: Upper Denbigh has up to 300 houses being built on the NWH (North Wales Hospital) site and more (mostly) unaffordable housing is not required.*

*3: The land is presently farm land. We should be encouraging more people into farming. We don't yet know the effects of Brexit on food security and now would be a foolish time to dump this land.*

*4: Although it mentions the land not being suitable for a new build for Ysgol Pendref it was only a very, very short time ago Cabinet agreed to the new 21st century schools programme and to commence a scoping exercise. Has that been completed already?*

*5: Once land belonging to the people has been sold to private enterprises there is no going back. How are cabinet certain the land will not be needed in the future.*

*6: We must surely be building more social housing."*

4.6 Yn dilyn ystyried penderfyniad y Cabinet a'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod heddiw, gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau benderfynu a ddylid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl at y Cabinet. Dylai'r Pwyllgor Craffu ddarparu ei resymau dros wneud hynny ac unrhyw wybodaeth y mae am i'r Cabinet ei ystyried. Bydd y Cabinet yn ystyried y rhain yn ei gyfarfod nesaf a dylai'r Cabinet ddangos bod ystyriaeth briodol wedi ei roi i argymhellion y Pwyllgor Craffu.

4.7 Bydd gan y Cabinet yr opsiynau i newid neu ailddatgan ei benderfyniad gwreiddiol.

4.8 Os penderfyna'r Pwyllgor Craffu Cymunedau na ddylid cyfeirio penderfyniad y Cabinet yn ôl at y Cabinet, yna gellir gweithredu'r penderfyniad gwreiddiol ar unwaith

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Gweler yr Adroddiad i Gabinet dyddiedig 22 Medi 2020 (Annex A).

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gweler yr Adroddiad i Gabinet dyddiedig 22 Medi 2020 (Annex A).

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Gweler yr Adroddiad i Gabinet dyddiedig 22 Medi 2020 (Annex A).

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Amh. Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi yn unol a'r darpariaethau a'r amserlen a amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor ar gyfer 'galw i fewn' benderfyniad wnaed gan y Cabinet.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Gweler yr Adroddiad i Gabinet dyddiedig 22 Medi 2020 (Annex A)

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gweler yr Adroddiad i Gabinet dyddiedig 22 Medi 2020 (Annex A)

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 21(2) a (3) o ddeddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adrannau 7.2.1 a 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor